




Cynllun Pensiwn
Llywodraeth Leol



Cronfa Bensiynau
CLWYD
Pension Fund

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Deall eich Datganiad Buddion

Blynyddol Gohiriedig

Awst 2025

Tudalen Cynnwys

Pam ydw i wedi derbyn Datganiad Buddion Gohiriedig?	3
Aelodau Gohiriedig	3
Aelodau credyd pensiwn.....	3
Pwynt i'w nodi.....	3
Cadwch yn ddiogel rhag sgamiau pensiwn	4
Adolygu eich Datganiad Buddion Blynnyddol Gohiriedig	4
Manylion personol	4
Manylion cyflogaeth	4
Sut y cyfrifwyd eich pensiwn ar eich datganiad.....	5
Talu cyfraniadau CPLIL hyd at ac yn cynnwys 31 Mawrth 2008	6
Talu cyfraniadau CPLIL rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014	6
Talu cyfraniadau CPLIL ers 1 Ebrill 2014	6
Manylion pensiwn gohiriedig.....	7
Buddion pensiwn heb eu gostwng.....	8
Lwfans cyfandaliad.....	8
Pensiwn blynnyddol goroeswr	8
Manylion mynegi dymuniad grant marwolaeth	9
Sut mae cysylltu â Chronfa Bensiynau Clwyd?	9

Pam ydw i wedi derbyn Datganiad Buddion Gohiriedig?

Aelodau Gohiriedig

Rydych wedi derbyn datganiad oherwydd bod gennych bensiwn gohiriedig yng Nghronfa Bensiynau Clwyd. Mae eich pensiwn wedi'i ohirio oherwydd rydych wedi stopio talu cyfraniadau pensiwn i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ac nid yw eich pensiwn wedi'i dalu i chi eto. Efallai eich bod wedi rhoi'r gorau i dalu cyfraniadau pensiwn oherwydd:

- Eich bod wedi gadael y swydd lle roeddech yn talu cyfraniadau pensiwn i'r CPLIL, neu
- Eich bod wedi optio allan o dalu cyfraniadau pensiwn er eich bod dal yn y swydd

Efallai y bydd gennych hefyd bensiwn gohiriedig gyda ni oherwydd eich bod wedi gadael eich swydd a'ch bod dros 55 oed, ond rydych wedi penderfynu peidio â chymryd eich pensiwn eto.

Aelodau credyd pensiwn

Efallai eich bod wedi gohirio eich buddion pensiwn gyda ni oherwydd rydych wedi cael dyfarniad cyfran o bensiwn eich cyn-wŵr, cyn-wraig neu cyn bartner fel rhan o'ch ysgariad, neu ddiddymiad o'ch partneriaeth sifil. Os ydych yn aelod credyd pensiwn, nid ydych wedi talu'r cyfraniadau pensiwn eich hun i gronni'r pensiwn hwn gyda ni.

Pwynt i'w nodi

Mae'r canllaw hon yn egluro mai'r oedran ymddeol isaf yw 55 oed ar hyn o bryd.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd yr oed cynharaf y gallwch dynnu eich pensiwn yn cynyddu o 55 oed i 57 oed o 6 Ebrill 2028. Nid yw hyn yn berthnasol os ydych angen cymryd eich pensiwn yn gynt oherwydd salwch.

Fe allech gael eich gwarchod rhag y cynnydd hwn os gwnaethoch ymuno â'r CPLIL yng Nghymru a Lloegr cyn 4 Tachwedd 2021. Gallech hefyd fod wedi'ch gwarchod os gwnaethoch drosglwyddo pensiwn blaenorol i'r Cynllun, os yw rhai amodau penodol wedi'u bodloni. Fodd bynnag, dim ond pan fyddwch chi'n tynnu eich pensiwn CPLIL y byddwch chi'n gallu cael eich gwarchod, os yw rheolau'r Cynllun yn caniatáu ichi dynnu eich pensiwn cyn troi'n 57 oed.

Llywodraeth y DU sy'n gosod rheolau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nid yw wedi ei gadarnhau eto os bydd yn caniatáu i aelodau, sy'n gymwys i gael eu gwarchod, gymryd eu pensiwn CPLIL cyn eu bod yn 57 mlwydd oed o 6 Ebrill 2028.

Lle mae 55 yn cael ei nodi ar weddill y anllaw hon, cofiwch y bydd hyn yn newid i 57 o 6 Ebrill 2028.

Cadwch yn ddiogel rhag sgamiau pensiwn

Mae sgamiau pensiwn yn driciau a all ddwyn yr holl arian yr ydych wedi'i gynilo ar gyfer ymddeoliad. Byddwch yn ofalus os bydd rhywun yn eich ffonio, yn anfon e-bost atoch neu'n cynnig rhywbeth i chi sy'n swnio'n rhy dda i fod yn wir. Gwiriwch fod unrhyw gynghorydd ariannol neu ddarparwr pensiynau wedi cofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) bob amser. Am fwy o gyngor ar sut i ddiogelu eich pensiwn, ewch i <https://www.fca.org.uk/scamsmart> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg) a lawr lwythwch y daflen ymwybyddiaeth o sgamiau gan y Grŵp Gweithredu ar Sgamiau Pensiwn yma (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg). Os hoffech gopi papur o'r daflen, cysylltwch â ni a gallwn anfon copi atoch.

Adolygu eich Datganiad Buddion Blynnyddol Gohiriedig

Manylion personol

Cymerwch funud neu ddau i ddarllen dros y rhan hon o'ch datganiad yn ofalus. Mae'r adran hon yn cynnwys eich enw, dyddiad geni a statws priodasol. Mae'n bwysig eich bod yn gwirio bod yr holl fanylion yn gywir, gan y bydd unrhyw wallau yn effeithio ar y ffigurau pensiwn a ddangosir ar yr adran manylion pensiwn gohiriedig yn eich datganiad. Er enghraifft, os yw eich dyddiad geni'n anghywir, bydd hyn yn cael effaith ar y dyddiad y gellir talu eich buddion i chi heb ostyngiad. Os yw eich statws priodasol yn anghywir, bydd gwerth eich pensiwn goroedwr yn anghywir. Mae'n bwysig bod gennym wybodaeth gywir i sicrhau eich bod yn cael yr holl fuddion sy'n ddyledus i chi pan fyddwch yn ymddeol.

Dylech wirio bod y darnau canlynol o wybodaeth sydd gennym ar eich cyfer yn gywir:

- Cyfeiriad cartref
- Dyddiad geni
- Cyfenw cyfredol
- Statws priodasol

Manylion cyflogaeth

Mae'r tabl canlynol yn egluro'r wybodaeth sydd yn adran manylion cyflogaeth eich datganiad. Mae'r manylion hyn wedi'u rhoi i ni gan eich cyn gyflogwr ac wedi'u defnyddio i gyfrifo'ch buddion pensiwn.

Ar gyfer aelodau credyd pensiwn, mae'r manylion hyn yn dangos gwybodaeth megis pryd y dyfarnwyd y credyd pensiwn i chi gan y Llysoedd Barn. Darllenwch y golofn sy'n berthnasol i chi.

Pennawd ar Ddatganiad Buddion Gohiriedig	Aelodau sydd wedi talu cyfraniadau CPLIL yn flaenorol	Aelodau credyd pensiwn
Cyn-gyflogwr (os yw hwn yn berthnasol):	Mae hwn yn nodi pwy oedd eich cyflogwr ar yr adeg yr oeddech yn talu cyfraniadau pensiwn i'r CPLIL	Dyma enw cyflogwr eich cyn-wr, cyn-wraig neu gyn bartner sifil

Pennawd ar Ddatganiad Buddion Gohiriedig	Aelodau sydd wedi talu cyfraniadau CPLIL yn flaenorol	Aelodau credyd pensiwn
Eich rhif cyfeirnod:	Eich cyfeirnod fel arfer yw'r rhif cyflogres a roddwyd i chi gan eich cyn gyflogwr ar gyfer y swydd hon	Bydd eich rhif cyfeirnod yn dangos fel 'Credyd Pen'
Dyddiad ymuno â'r gronfa / Dyddiad cymhwyso gorchymyn rhannu pensiwn:	Y dyddiad pan ddechreuoch dalu cyfraniadau pensiwn i'r CPLIL	Y dyddiad a ddangosir ar eich dogfen gorchymyn rhannu pensiwn a ddarparwyd i ni gan y Llysoedd Barn
Dyddiad gadael (os yw hwn yn berthnasol):	Y dyddiad pan wnaethoch roi'r gorau i dalu cyfraniadau pensiwn i'r CPLIL	Os dyfarnwyd credyd pensiwn i chi drwy orchymyn rhannu pensiwn, bydd hwn yn wag
Tâl pensiynadwy a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiad cyn Ebrill 2014 (os yw hwn yn berthnasol):	Dyma gyflog cyfwerth â llawn amser a ddefnyddiwyd i gyfrifo eich pensiwn a gronnwyd gennych cyn Ebrill 2014. Sylwch, os oeddech chi'n gweithio'n rhan amser neu yn ystod y tymor, byddwn yn defnyddio eich cyflog cyfwerth â llawn amser i gyfrifo rhan hon eich buddion	Gan fod eich credyd pensiwn wedi'i gyfrifo ar sail gorchymyn rhannu pensiwn, nid yw'r blwch hwn yn berthnasol i chi. Bydd yn ymddangos fel £0.01

Sut y cyfrifwyd eich pensiwn ar eich datganiad

Er mwyn i chi ddeall y ffigyrau pensiwn yn eich datganiad, mae'n bwysig eich bod yn deall yn gyntaf sut mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gweithio.

Mae'r CPLIL yn gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio. Golyga hyn nad yw gwerth eich pensiwn wedi'i seilio ar y cyfraniadau pensiwn yr ydych chi'n eu talu. Yn lle, rydym yn cyfrifo eich pensiwn ar sail:

- Pa mor hir rydych chi wedi bod yn talu cyfraniadau;
- Eich cyflog pensiynadwy yn ystod eich cyflogaeth;
- Yr oriau yr ydych chi wedi'u gweithio, ar gyfer pensiwn a gronnwyd gennych cyn 1 Ebrill 2014 yn unig; ac
- Unrhyw absenoldebau sydd gennych

Yn ddibynol ar bryd wnaethoch ddechrau a rhoi'r gorau i dalu cyfraniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, efallai bydd eich pensiwn yn cynnwys un, dwy neu dair rhan oherwydd newidiadau i reolau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol dros gyfnod o amser. Rydym wedi llunio siart ar y dudalen nesaf i helpu esbonio pob adran i chi.

Talu cyfraniadau CPLIL hyd at ac yn cynnwys 31 Mawrth 2008	Cyfradd gronni o 80fedau (a elwir hefyd yn gyfradd gronni)	Cyfrifir eich pensiwn blynyddol gan ddefnyddio'r swm canlynol: Blynyddoedd a dyddiau o aelodaeth yn y cynllun $\div 80 \times$ y cyflog rydych wedi talu cyfraniadau arno (Cyflog pro rata i amser llawn os oeddech yn gweithio rhan amser neu yn ystod y tymor)	Mae'ch cyfandaliad awtomatig fel rheol yn ddi-dreth ac yn cael ei gyfrifo yn defnyddio'r swm yma: Tair gwaith eich gwerth pensiwn blynyddol yn y cynllun 80fedau hwn Mae gennych hefyd opsiwn i gael cyfandaliad mwy wrth ymddeol drwy droi rhywfaint o'ch pensiwn blynyddol yn gyfandaliad	Oedran ymddeol arferol rhwng 60 a 65 (yn dibynnu ar yr achos unigol)
Talu cyfraniadau CPLIL rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014	Cyfradd gronni o 60fedau (a elwir hefyd yn gyfradd gronni)	Cyfrifir eich pensiwn blynyddol gan ddefnyddio'r swm canlynol: Blynyddoedd a dyddiau o aelodaeth yn y cynllun $\div 60 \times$ y cyflog rydych wedi talu cyfraniadau arno (Cyflog pro rata i amser llawn os oeddech yn gweithio rhan amser neu yn ystod y tymor)	Ni cheir cyfandaliad awtomatig. Mae opsiwn i greu un wrth ymddeol trwy droi rhywfaint o'ch pensiwn blynyddol yn gyfandaliad. Mae hyn fel rheol yn ddi-dreth.	Oedran ymddeol arferol o 65
Talu cyfraniadau CPLIL ers 1 Ebrill 2014	Cyfradd gronni o 49fedau os ydych yn talu cyfraniadau llawn (a elwir hefyd yn gyfradd gronni) Cyfradd gronni o 98fedau os ydych yn talu hanner cyfraniadau (a elwir hefyd yn gyfradd gronni)	Gan ddefnyddio 1 Ebrill i 31 Mawrth fel blwyddyn cynllun pensiwn, mae enghraifft o sut y cyfrifir eich pensiwn blynyddol isod: Blwyddyn cynllun 1: cyflog gwirioneddol gros rydych wedi talu cyfraniadau arno $\div 49^*$ Blwyddyn cynllun 2: cyflog gwirioneddol gros rydych wedi talu cyfraniadau arno $\div 49^*$ Blwyddyn cynllun 3: cyflog gwirioneddol gros yr ydych wedi talu cyfraniadau arno $\div 49^*$ Pan fyddwch yn rhoi'r gorau i dalu cyfraniadau pensiwn, caiff holl flynyddoedd y cynllun eu hadio at ei gilydd i gadarnhau cyfanswm y pensiwn rydych wedi'i gronni *Os ydych yn talu hanner cyfraniadau, bydd y cyflog gwirioneddol gros rydych wedi talu cyfraniadau arno'n cael ei rannu â 98 yn lle 49	Ni cheir cyfandaliad awtomatig. Mae opsiwn i greu un wrth ymddeol trwy droi rhywfaint o'ch pensiwn blynyddol yn gyfandaliad. Mae hyn fel rheol yn ddi-dreth.	Yr oedran ymddeol arferol yw oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed), pa un bynnag yw'r hynaf

Manylion pensiwn gohiriedig

Mae ffigurau'r pensiwn ar eich Datganiad Buddion Gohiriedig yn cynnwys cynnydd o 1.70% yn sgil argyfwng costau byw. Mae'r cynnydd hwn yn weithredol o 7 Ebrill 2025. Bydd gwerth eich pensiwn yn newid bob mis Ebrill. Mae'r CPLIL yn defnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) i ychwanegu codiadau costau byw at eich pensiwn.

Pensiwn blynyddol gohiriedig:	Mae hwn yn dangos gwerth presennol eich pensiwn blynyddol gohiriedig ar sail eich aelodaeth o'ch dyddiad dechrau i'ch dyddiad gorffen talu cyfraniadau pensiwn. Mae'n rhoi ystyriaeth i'r cynllun pensiwn 1/80 cyflog terfynol, 1/60 cyflog terfynol a'r cynllun pensiwn cyfartaledd gyrfa fel yr eglurwyd yn gynharach. Nid yw'r ffigwr yn yr adran hon yn rhoi ystyriaeth i unrhyw ostyngiadau am ymddeol yn gynnar. Am y tro cyntaf eleni, rydym ni'n dangos sut mae rhwymedi McCloud yn effeithio ar werth eich pensiwn blynyddol. Os ydych chi'n gymwys ar gyfer rhwymedi McCloud, mae'ch swm terfynol amcangyfrifedig gwarantedig wedi'i gynnwys yn y ffigwr pensiwn blynyddol dan yr adran hon o'ch datganiad. Mae'ch llythyr eglurhaol, sydd wedi'i gynnwys gyda'ch datganiad, yn egluro a ydych chi'n gymwys ar gyfer rhwymedi McCloud ai peidio. Efallai y bydd rhai aelodau yn cael llythyr yn cadarnhau ein bod ni wrthi'n cyfrifo i weld a ydych chi'n gymwys.
Swm gwarantedig terfynol (FGA):	Mae swm gwarantedig terfynol yn swm ychwanegol o bensiwn sy'n ddyledus i chi ar ôl i chi ymddeol: • os ydych chi'n gymwys am rwymedi McCloud, ac • os byddai eich pensiwn yn uwch pe baem yn ei gyfrifo o dan yr hen gynllun cyflog terfynol (ar gyfer pensiwn a gronwyd rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2022 yn unig) Os ydych chi'n gymwys am rwymedi McCloud, fe welwch adran Swm Gwarantedig Terfynol (FGA) ar eich datganiad. Nid yw'r swm gwarantedig terfynol hwn yn swm ychwanegol o bensiwn blynyddol. Dadansoddiad yn unig ydyw o'r hyn sydd wedi'i gynnwys eisoes yn yr adran pensiwn blynyddol ar eich datganiad. Bydd Cronfa Bensiynau Clwyd yn cyfrifo eich swm gwarantedig terfynol pan fyddwch yn cymryd eich pensiwn. Mae'r swm terfynol yn ddibynnol ar sawl ffactor, gan gynnwys eich oedran pan fyddwch chi'n ymddeol. O bosibl y bydd y swm gwarantedig terfynol yn uwch, yn is neu'n amherthnasol pan fyddwch chi'n ymddeol. Os na fyddwch chi'n gymwys neu os ydych chi wrthi'n cyfrifo a ydych chi'n gymwys, ni fyddwch yn gweld yr adran swm gwarantedig terfynol ar eich datganiad pensiwn 2025.
Cyfundaliad awtomatig gohiriedig:	Mae hwn yn dangos gwerth presennol eich cyfundaliad gohiriedig ar sail eich aelodaeth o'ch dyddiad dechrau i'ch dyddiad gorffen talu cyfraniadau pensiwn. Mae'r cyfundaliad awtomatig wedi ei seilio ar aelodaeth 1/80 cyflog terfynol yn unig. Nid yw'r ffigwr yn yr adran hon yn rhoi ystyriaeth i unrhyw ostyngiadau am ymddeol yn gynnar. Mae cyfundaliadau fel arfer yn ddi-dreth.

Os ydych wedi trosglwyddo pensiynau blaenorol, neu wedi talu cyfraniadau pensiwn ychwanegol ar gyfer unrhyw un o'r canlynol, mae'r rhain wedi cael eu cynnwys ar eich datganiad:

- blynyddoedd wedi'u hychwanegu,
- cyfraniadau pensiwn ychwanegol (CPY),
- cyfraniadau rheolaidd ychwanegol (CRHY),

Os ydych wedi talu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY) gyda Chronfa Bensiynau Clwyd, nid yw'r rhain wedi eu cynnwys. Byddwch yn derbyn datganiad ar wahân gan y darparwr CGY. Bydd eich CGY yn cael ei gadw gyda naill ai Prudential neu Utmost Life.

Efallai y bydd gennych ddebyd ar eich pensiwn oherwydd:

- Bod gorchymyn rhannu pensiwn mewn grym o ganlyniad i ysgariad neu ddiddymu partneriaeth sifil, ac felly eich bod wedi rhoi cyfran o'ch pensiwn i'ch cyn-bartner
- Eich bod chi'n gorfod talu treth lwfans blynyddol gan fod eich pensiwn wedi cynyddu'n sylweddol flwyddyn ar ôl blwyddyn a'ch bod chi wedi mynd dros drothwy Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Os ydych chi wedi dewis i ni dalu'r bil treth ar eich rhan drwy'r opsiwn Cynllun yn Talu, bydd gennych chi ddebyd pensiwn gyda ni. Mae'r taliad treth hwn wedyn yn cael ei dynnu o werth eich buddion CPLIL.

Buddion pensiwn heb eu gostwng

Mae eich dyddiad buddion heb eu gostwng yn dangos pryd gellid talu eich pensiwn i chi heb unrhyw ostyngiadau ymddeoliad cynnar. Fodd bynnag, bydd gostyngiadau ymddeoliad cynnar yn berthnasol i'ch pensiwn os byddwch yn dewis cymryd eich buddion cyn y dyddiad ymddeol arferol.

Lwfans cyfandaliad

Pan fyddwch chi'n ymddeol, fe fyddwch chi hefyd yn gallu troi rhywfaint o'ch pensiwn blynyddol mewn i gyfandaliad os ydych chi'n dymuno.

Telir y cyfandaliad yn ddi-dreth i'r rhan fwyaf o aelodau, ond mae terfyn ar faint o arian parod di-dreth y gallwch ei gymryd o gynlluniau pensiwn y DU. Mae Cyllid a Thollau EF yn rhoi terfyn ar faint o gyfandaliad di-dreth y gallwch ei gymryd pan fydd eich pensiwn yn cael ei dalu i chi. Gelwir y terfyn hwn yn lwfans cyfandaliad. Ar hyn o bryd, y cyfandaliad mwyaf yw'r isaf o'r canlynol:

- 25% o werth cyfalaf eich buddion
- £268,275*
- £268,275* yn llai na chyfanswm y cyfandaliadau rydych chi wedi'u cymryd eisoes

*Os oes gennych chi warchodaeth Lwfans Oes ddilys, o bosibl y gallech gymryd cyfandaliad sy'n fwy na £268,275.

Bydd yn gyfandaliad di-dreth fel arfer, ond os ewch chi dros derfyn y lwfans cyfandaliad, bydd rhaid i chi dalu treth ar y swm uwchlaw'r terfyn ar eich cyfradd ymylol.

Pensiwn blynyddol goroeswr

Mae eich datganiad hefyd yn cynnwys gwerth unrhyw bensiwn partner sy'n goroesi a fyddai'n daladwy os byddwch yn marw ac yn gadael priod neu bartner cymwys a oedd yn byw gyda chi. Os oes gennych chi bensiwn gohiriedig gyda ni oherwydd eich bod yn aelod credyd pensiwn, ni fyddai unrhyw bensiwn partner sy'n goroesi'n daladwy pe baech yn marw.

Manylion mynegi dymuniad grant marwolaeth

Os ydych chi'n marw cyn i'ch pensiwn gael ei dalu i chi, efallai bydd cyfandaliad marwolaeth untro yn cael ei dalu'n lle hynny. Gall eich buddiolwyr grant marwolaeth fod yn un neu fwy o aelodau'r teulu, ffrindiau neu elusennau. Heb ffurflen mynegi dymuniad ddilys, telir y grant marwolaeth i'ch cynrychiolydd personol, er enghraifft, eich Ystâd.

Mae'r adran hon yn eich datganiad yn dangos pwy rydych wedi eu henwebu ar hyn o bryd i gael unrhyw grant marwolaeth sy'n daladwy, a'r ganran a nodwyd gennych y dylid ei thalu i bob un ohonynt. Os yw'r adran hon yn wag neu os nad yw enwau eich buddiolwyr yn gyfredol mwyach, mae'n bwysig eich bod yn diweddarau eich cofnod mynegi dymuniad. Gallwch wneud hyn drwy fewngofnodi i'ch cyfrif **Hunan Wasanaeth Aelodau (HWA)** a chlicio ar yr adran **Enwebiad(au) Grant Marwolaeth**, neu drwy lenwi ffurflen mynegi dymuniad y gellir dod o hyd iddi o dan yr **adran ffurflenni ac adnoddau** ar ein gwefan. Os oes angen copi papur arnoch, cysylltwch gyda ni.

Os bydd aelod CPLIL gohiriedig yn marw cyn bod yn bensiynwr gyda ni, byddai gwerth y grant marwolaeth yn cael ei gyfrif fel a ganlyn:

Os gwnaethoch roi'r gorau i dalu cyfraniadau pensiwn neu os cawsoch eich credyd pensiwn cyn 1 Ebrill 2008	Bydd y grant marwolaeth hwnnw werth teirgwaith cymaint â'ch pensiwn gohiriedig blyneddol yn ogystal â chynnydd ar sail costau byw
Os gwnaethoch roi'r gorau i dalu cyfraniadau pensiwn neu os cawsoch eich credyd pensiwn ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008	Bydd y grant marwolaeth hwnnw werth pum gwaith cymaint â'ch pensiwn gohiriedig blyneddol yn ogystal â chynnydd ar sail costau byw

Mae'n rhaid i unrhyw grant marwolaeth ystyried a oes gennych chi unrhyw bensiynau eraill mewn Cronfeydd CPLIL eraill. Byddwn yn gwirio gyda Chronfeydd CPLIL eraill yng Nghymru a Lloegr i wirio a oes gennych:

- Unrhyw gyfrifon pensiynwr â nhw; hynny ydi, eich bod wedi derbyn taliadau pensiwn o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Unrhyw gyfrifon gweithredol gyda nhw: hynny ydi, lle'r ydych yn parhau i dalu cyfraniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Yna y grant sy'n daladwy fydd yr **uchaf** o'r:

- Grant marwolaeth mewn gwasanaeth
- Cyfanswm y buddion marwolaeth o'ch cyfrifon gohiriedig neu bensiynwr yn y gronfa hon neu gronfa CPLIL arall

Sut mae cysylltu â Chronfa Bensiynau Clwyd?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni gan ddefnyddio un o'r dewisiadau isod, gan nosi eich enw a'ch Rhif Yswiriant Gwladol. Bydd hyn yn ein helpu ni i ddod o hyd i'ch cofnodion pensiwn ac ateb eich cwestiwn.

Ffôn: 01352 702875

E-bost: pensiynau@siryfflint.gov.uk

Cyfeiriad: Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Gwefan: cronfabensiynaclwyd.org.uk



cronfabensiynaclwyd.org.uk

Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Sylwer mai Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd a'n bod yn defnyddio'ch data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data er mwyn darparu gwasanaeth gweinyddu pensiwn i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut y byddwn yn defnyddio eich data, gyda phwy y byddwn yn ei rannu a'r hawliau sydd gennych chi mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.